

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2015 Rhif 1394 (Cy. 138)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU**

**Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal  
ac Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2015**

<i>Gwnaed</i>	- - - -	<i>17 Mehefin 2015</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad</i>		
<i>Cenedlaethol Cymru</i>	- -	<i>19 Mehefin 2015</i>
<i>Yn dod i rym</i>	- -	<i>19 Gorffennaf 2015</i>

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas ag atal ac adfer difrod amgylcheddol ac yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno fel y'i darllenir gyda pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno(3).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009")(4). Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2009 yn darparu bod cyfeiriadau at offerynnau'r UE yn gyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. At ddibenion Rheoliadau 2009 fel y maent yn cael effaith fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i offerynnau'r UE y cyfeirir atynt yn Rheoliadau 2009 gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Gorffennaf 2015 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" o dan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(5).

---

(1) O.S. 2014/1890.

(2) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(3) Mewnosodwyd paragraff 1A yn Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(4) O.S. 2009/995 (Cy. 81); O.S. 2011/556 a 971, 2012/630, 2013/775 (Cy. 90) yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

(5) 2006 p. 32.

## Diwygiadau i Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009

- 2.—(1) Mae Rheoliadau Difrod (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009 wedi eu diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—
- “ystyr “dyfroedd morol” (“*marine waters*”) yw dyfroedd sy’n cael eu dosbarthu’n ddyfroedd morol yn unol â Chyfarwydddeb 2008/56/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu Cymunedol ym maes polisi amgylcheddol morol(6);”;
- “ystyr “gwaelodlin” (“*baseline*”) yw’r gwaelodlinau y mesurir lled y môr tiriogaethol ohonynt at ddibenion Deddf Moroedd Tiriogaethol 1987(7);”.
- (3) Yn rheoliad 4 (ystyr “difrod amgylcheddol”)—
- (a) ym mharagraff (1)—
- (i) yn is-baragraff (b) hepgorer yr ail “neu”;
- (ii) hepgorer is-baragraff (c) a mewnosoder—
- “(c) dyfroedd morol, neu
- (d) tir.”; a
- (b) hepgorer paragraff (5) a mewnosoder—
- “(5) Ystyr difrod amgylcheddol i ddyfroedd morol yw difrod i ddyfroedd morol sy’n effeithio’n sylweddol andwyol ar eu statws amgylcheddol.
- (6) Ystyr difrod amgylcheddol i dir yw halogi’r tir â sylweddau, paratodau, organeddau neu ficro-organeddau sy’n arwain at risg sylweddol o effeithiau andwyol ar iechyd dynol.”.
- (4) Yn rheoliad 6 (yr ardaloedd lle mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys)—
- (a) ym mharagraff (1)—
- (i) ar ôl y cofnod yn y tabl “Difrod i ddŵr” creer rhes newydd ac yn y golofn gyntaf (Y math o ddifrod) mewnosoder “Difrod i ddyfroedd morol”; a
- (ii) yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn (Yr ardal lle mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys) mewnosoder—
- “Yr holl ddyfroedd morol o fewn unrhyw un neu ragor o’r disgrifiadau a ganlyn—
- (a) dyfroedd morol hyd at un filltir fôr tua’r môr o’r gwaelodlin yng Nghymru i’r graddau nad ydynt wedi cael sylw fel difrod i ddŵr eisoes;
- (b) dyfroedd morol o un filltir fôr tua’r môr o’r gwaelodlin yng Nghymru, gan ymestyn i 12 milltir fôr o’r gwaelodlin yng Nghymru”; a
- (b) hepgorer paragraff (2).
- (5) Ar ôl rheoliad 8(1) (esemptiadau) mewnosoder—
- “(1A) Mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â’r difrod i ddyfroedd morol fel petai “19 Gorffennaf 2015” wedi ei roi yn lle “i’r rheoliadau hyn ddod i rym” yn is-baragraff (a).”
- (6) Yn rheoliad 10 (yr awdurdodau gorfodi o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010)(8) hepgorer paragraff (3)(b)(iii) a mewnosoder—
- “(iii) Gweinidogion Cymru, os yw’r difrod i ddyfroedd morol; a

(6) OJ Rhif L 164, 25.6.2008, t. 19.

(7) 1987 p. 49.

(8) O.S. 2010/675; O.S. 2010/676, a 2172; 2011/988, 1043, 2043 a 2933; 2012/630 ac 811; 2013/390, 755 a 766, 2014/255 a 517 (Cy. 60) yw’r offerynnau diwygio perthnasol.

- (iv) Corff Adnoddau Naturiol Cymru, os yw'r difrod i gynefinoedd naturiol neu rywogaethau a warchodir neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.”
- (7) Yn rheoliad 11(1) (Yr awdurdodau gorfodi mewn achosion eraill) ar ôl y cofnod yn y tabl “Difrod i ddŵr—” creer rhes newydd a mewnosoder—
- (a) yng ngholofn gyntaf y tabl (Y math o ddifrod amgylcheddol) “Difrod i ddyfroedd morol —”;
  - (b) yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn (Man y difrod) mewnosoder “Yr holl ddyfroedd morol hyd at 12 milltir fôr o'r gwaelodlin yng Nghymru”; ac
  - (c) yn y cofnod cyfatebol yn y drydedd golofn (Yr awdurdod gorfodi) mewnosoder “Gweinidogion Cymru”.

17 Mehefin 2015

*Carl Sargeant*  
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o  
Weinidogion Cymru

**Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009 (9) ("Rheoliadau 2009") sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2004/35/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar atebolrwydd amgylcheddol o ran atal ac adfer difrod amgylcheddol(10) ("y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol").

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2009 i weithredu'r newidiadau i'r Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol a gyflwynwyd gan Erthygl 38 o Gyfarwyddeb 2013/30/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddiogelwch gweithrediadau olew a nwy alltraeth ac yn diwygio Cyfarwyddeb 2004/35/EC(11). Mae erthygl 38 o Gyfarwyddeb 2013/30/EU yn ymestyn y diffiniad o 'difrod amgylcheddol' a geir yn y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol i gynnwys difrod sy'n effeithio'n sylweddol andwyol ar statws amgylcheddol dyfroedd morol fel y'u diffinnir yng Nghyfarwyddeb 2008/56/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu cymunedol ym maes polisi amgylcheddol morol(12). Mae rheoliad 8 o Rheoliadau 2009 yn cael ei ddiwygio i ddarparu cyfyngiadau amser mewn perthynas â difrod i ddyfroedd morol. Mae rheoliadau 10 ac 11 yn cael eu diwygio er mwyn pennu'r awdurdodau gorfodi ar gyfer difrod i ddyfroedd morol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(9) O.S. 2009/995 (Cy. 81); O.S. 2011/556 a 971, 2012/630, 2013/775 (Cy. 90) yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

(10) OJ Rhif L 143, 30.4.2004, t. 56, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2013/30/EU (OJ Rhif. L 178, 28.6.2013, t. 66).

(11) OJ Rhif L 178, 28.6.2013, t. 66.

(12) OJ Rhif L 164, 25.6.2008, t. 19.